


ARWERTHIAN LLYFRAU JAMES EDWARDS

26 Pall Mall Llundain, 5ed Ebrill 1815

Ar hyd fy nhaith trwy siopau llyfrau hynafiaethol Cymru, deuthum ar draws llyfryn diddorol. Llyfryn ynglŷn ag arwerthiant casgliad James Edwards Ysw. Cynhaliwyd yr arwerthiant yn ei dŷ, 26 Pall Mall ar 5ed o Ebrill 1815 ac yn parhau am bum niwrnod heblaw am y Sul. I'w rhoi mewn persbectif, sylweddolwn fod yr arwerthiant wedi digwydd cyn brwydr Waterloo ym mis Mehefin 1815. Cyhoeddwyd y catalog oedd W. Bulmer and Co. Cleveland Row, St James's. Heblaw am werthu Llyfrgell James Edwards, roedd ei gasgliad o gawgiau Groegaidd yn mynd o dan y morthwyl hefyd.

Mae 47 tudalen yn y catalog, ac ar ymyl y dudalen, mae clerwr yr arwerthiant wedi nodi pris gwerthiant y llyfrau a phwy a'u prynant. Yr enwau sydd yn neidio allan yw, Constable, Dibdin, Bentham, Turner, Longman a Roscoe.

Ar ddiwrnod cyntaf yr arwerthiant, y llyfrau a werthwyd oedd, Geiriaduron, Gramadegau, a Thraethodau ar Iaith. Yr ail ddiwrnod, Pensaernïaeth a Hynafiaethau. Y trydydd diwrnod, Celfyddydau a Gwyddoniaeth a Llyfrau o Brintiau. Y pedwerydd diwrnod, Hanes Cyffredinol ac Atlases. Y pumed diwrnod Hanes Lloegr ac ar y chwedder diwrnod (er taw pum niwrnod oedd yr arwerthiant i fod) Hanes Natur yn cynnwys Diwinyddiaeth a'r Cawgiau Groegaidd.



Wyneb-dalen y Catalog

Hanai teulu James Edwards o Halifax. Ei dad oedd William Edwards (1723- 1808) Adnabyddir William Edwards am ei waith rhwymo cain gyda darluniau wedi eu peintio o dan felwm tryloyw. Hefyd, ef oedd y cyntaf

i osod lluniau ar flaen ochr tudalennau llyfrau. Roedd galw mawr am ei waith gan foneddigion yr amser oherwydd y printiau/lluniau Neo Classical a gynhwyswyd yn eu rhwymiaidau. Symudodd ei fab James Edwards i Lundain yn 1784 gan agor siop yn Pall Mall. Pa ryfedd fod cymaint o lyfrau yn ei feddiant. Fel yr ydym ni gasglwyr llyfrau yn gwybod, mae hi yn anodd gollwng gafael ar lyfr!

Roedd yn gyfaill mawr i Thomas Johnes yr Hafod, ac arhosodd yno nifer o weithiau. Ei gyfaill mawr arall oedd William Blake yr awdur/arlunydd. Gwerthai James Edwards llyfrau William Blake o'i siop yn Pall Mall. Ymysg rhai o'r llyfrau oedd 'Night Thoughts' a ymddangosodd yn 1797. Argraffwyd y copi mewn felwm ac fe'i harddangoswyd yn ffenestr siop James Edwards. Roedd 43 o ysgythriadau William Blake ynddo.

Sylwer taw R. H. Evans yw'r arwerthwr, a oedd yn gyfrifol am werthu Llyfrau James Edwards. Yntau oedd yn gyfrifol, hefyd, am am werthu casgliad llyfrau'r bardd Byron yn Ebrill 1816 pan gyrhaeddont gyfanswm o £723 12s 6d.

Er bod prisiau wedi eu nodi yn ymyl y catalog nid yw yn hysbys pa bris oedd cyfanswm gwerthiant eiddo James Edwards., ond gallwn gasglu ei fod yn swm sylweddol.

J. Meurig Jones

SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3AA

Ffôn: 01766 831802 E-bost elin.henbost@virgin.net

LLYFRAU NEWYDD, AIL-LAW A HYNAFIAETHOL

1. Ellis, T.I. : Crwydro Maldwyn, 1957	£6.50	30. Myrddin ap Dafydd (gol.) : Hen Dref y Cymeriadau Rhyfedd, 1989	£1.00
2. Megan, Sian : Gwaith Ann Griffiths 1982	£3.50	31. Jones, R. Emyr : Ar Ras i Rwsia, 1969	£1.00
3. Ward Frank : The Lakes of Wales, 1931	£27.00	32. Jones, W. S. : Ifans Eto Iyth 1987	£1.50
4. Beynon Tom (gol.) : Howell Harris' Visits to London 1960	£7.00	33. Moc Morgan : Pysgota 1977	£1.00
5. Richards, William : Cambro British Biography 1820	£75.00	34. Lewis, Henry : Hen Gyflwyniadau, 1948	£1.50
6. Jones, J. S.; Hanes Rhymni a Phontlottyn, 1904	£20.00	35. Payne, Ffrancis G. : Chwaryddion Crwydrol	£1.50
7. Carr, H. R. & Lister, G. A.: The Mountains of Snowdonia, 1948	£14.00	36. Cybi : 'Cae'r Go', dd	£1.50
8. Jones, Thomas : An English and Welsh Dictionary. 1811	£20.00	37. Jones, Tom : Dyddiadur Ffarmwr, 1985	£1.00
9. Thomas, William : Hynafiaethau yr Hendygywyn-ar-Daf, 1868, clawr papur diweddar	£18.00	38. Humphreys, J. : O Gylch Garn Fadrig 1930	£1.50
10. 'Griffith' : The Welsh Question and Druidism, dd, 3ydd arg	£25.00	39. Emrys, John (gol.) : Lewis Valentine yn Cofio 1983	£1.00
11. Samuel, W. : Llandilo Present and Past 1868	£48.00	40. Davies, E. Tegla : Gŵr Pen y Bryn 1943	£1.50
12. Roberts, E. S. (gol.) : Llysieuylfr Meddyginiaethol William Salesbury, 1916	£70.00	41. Lewis, Saunders : Straeon Glasyns 1943	£1.50
13. Beynon, Tom : Howell Harris's Visit to Pembrokeshire 1966	£7.00	42. Lewis, Saunders : Ysgrifau Dydd Mercher 1945	£1.50
14. Morys, Clynog : Athrawiaeth Gristionogol, adargraffiad 1880	£40.00	43. Jones, T. Llew : Berw Gwyllyn Abergwaun 1986	£1.50
15. Anwyl, E., The Poetry of the Gogynfeirdd 1909	£12.00	44. Jones, Tegwyn : Abell Jones Bardd Crwst : 1989	£1.50
16. Williams, Taliesin (gol.) : Iolo Manuscripts 1888	£90.00	Mân Bamffledi a Llyfrynau	
17. Williams Taliesin (gol.) : Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain, 1829	£30.00	45. Baled : Can Newydd yn Gosod Allan Hanes Amaethyddiaeth	£5.00
18. Salesbury, William : Testament Newydd, adargraffiad 1850,	£18.00	46. Shankland, T. : Hanes Dechreuad 'Gorsedd Beirdd Ynys Prydain', 8 tud. 1924	£2.00
19. Nuttall, G. F. : The Welsh Saints, 1957	£6.00	47. Baled (Azariah Shadrach) : Myfrdod ar Y Cloc yn Taro	£5.00
20. Evans, Nesta G. : Social Life in Mid Eighteenth Century Anglesey, 1936	£20.00	48. Baled (Evan Griffiths) : Can Sylweddol Sef Hunan Fyfyrdod ar Effeithiau Croeshoeliad ein Harglwydd	£4.00
21. Whitaker, John : The Genuine History of the Britons Asserted 1772.	£150.00	49. Jones, Dafydd : Hanes Nicodemus, 12 tud. 1812	£7.00
22. Esgob Morgan : Psalmiau Dafydd, adargraffiad 1896	£22.50	50. Description and Plan ... of Raglan Castle, 16 tud.	£9.00
23. Parry-Williams, T. H. : The English Element in Welsh, 1923	£21.50	51. Edwards, J. Goronwy : Hywel Dda and the Welsh Law Books, 27 tud. 1929	£5.00
24. Hedd Wyn : Cerddi'r Bugail 1931	£5.00	52. Wade-Evans, A. W. (gol.) : Peniath MS37, Fol. 61A-76B, 35 tud., 1904	£7.50
25. Thomas, J. D. : Onesimus 1950	£3.50	53. Phillips, D. Rhys : Lady Charlotte Guest and The Mabinogion, 37 tud., 1921	£9.00
26. Hughes, T. E. et al : Hanes Cymry Minnesota, yr argraffiad dwyieithog, 1895	£42.00	54. Kendrick, Eddie : Pen-y-Gwryd and Snowdonia, 32 tud.	£6.00
Bargeinion		55. Nicholas, James : Pan oeddwn Grwt Diniwed yn y Wlad, 18 tud., 1979	£3.00
27. Davies, Joan : Cawl Cenin, 1978	£1.00		
28. Gruffydd, W. J. : Hen Atgofion 1836	£1.50		
29. Davies, Dic : Byw yn y Wlad, 1992	£1.00		

CLUDIANT YN YCHWANEGOL